

# STOPIO A CHWILIO

**GWYBOD EICH  
HAWLIAU**



# STOP & SEARCH

**KNOW YOUR  
RIGHTS**

## **STOPIO A RHOI CYFRIF**

'Stopio a rhoi cyfrif' yw pan fydd swyddog yn eich stopio ac yn gofyn i chi:

- beth yr ydych yn ei wneud;
- pam yr ydych yn rhywle neu i le yr ydych yn mynd; *neu*
- beth yr ydych yn ei gario.

Nid oes gan swyddog heddlu na swyddog cefnogi cymuned yr heddlu (SCCH) y grym i'ch gorfodi chi i aros efo nhw os yr ydych yn cael eich stopio ac os gofynnir i chi roi cyfrif.

Gall swyddog heddlu neu SCCH gynnal proses stopio a chwilio. Mae'n rhaid i SCCH fod mewn lifrai, ond does dim rhaid i swyddog heddlu fod mewn lifrai. Mae'n rhaid iddynt ddangos eu cerdyn adnabod i chi os nad ydynt mewn lifrai.

Nid yw'n ofynnol cofnodi pob achos o stopio a rhoi cyfrif. Fodd bynnag, os cewch eich chwilio, dylid ei gofnodi a dylech gael cynnig naill ai copi o'r cofnod neu dderbynneb os gwnaed y cofnod trwy ddull electronig neu dros set radio'r swyddog.

## STOPIO A CHWILIO

Gallwch chi neu gerbyd yr ydych yn teithio ynddo gael ei stopio a'i chwilio os oes gan swyddog heddlu le rhesymol i amau eich bod yn cario:

- cyffuriau, arfau neu eiddo sydd wedi'i ddwyn; *neu*
- eitemau y gellid eu defnyddio i gyflawni trosedd.

Gall swyddogion heddlu eich stopio a'ch chwilio o fewn ardal benodol heb unrhyw sail resymol os credir:

- y gallai trais difrifol ddigwydd; *neu*
- bod arfau peryglus yn cael eu cario neu wedi cael eu defnyddio.

Gall swyddogion heddlu eich stopio a'ch chwilio am dystiolaeth neu bethau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Bydd angen iddynt gael sail resymol y byddant yn dod o hyd i'r hyn maent yn chwilio amdano, oni bai bod pwerau penodol wedi eu hawdurdodi o dan Adran 47A o Ddeddf Terfysgaeth 2000.

Does dim rhaid i swyddogion heddlu fod mewn lifrai bob amser i'ch stopio a'ch chwilio.

Gall swyddogion cefnogi cymuned yr heddlu hefyd eich stopio a'ch chwilio mewn rhai sefyllfaoedd ond efallai y bydd eu pwerau yn amrywio o un heddlu i'r llall.

Mae'n rhaid i unrhyw swyddog sy'n eich stopio a'ch chwilio egluro:

- y rheswm yr ydych yn cael eich stopio a'ch chwilio;
- beth mae'r swyddog yn edrych amdano;
- yn unol â pha gyfraith yr ydych yn cael eich chwilio; *ac*
- eich hawl i gael cofnod.

Fe ddylech bob amser gael enw neu rif adnabod a gorsaf y swyddog sy'n eich chwilio.

Os byddwch yn cael eich chwilio ond nad ydych yn cael eich arestio, mae gennych hawl i gael cofnod o hynny ac mae'n rhaid i'r swyddog nodi'r manylion canlynol:

- sut yr ydych yn disgrifio eich cefndir ethnig;
- pryd a lle y cawsoch eich stopio a'ch chwilio;
- y rheswm y cawsoch eich stopio a'ch chwilio;
- enw a/neu rif y swyddog sy'n cynnal y chwiliad; *ac*
- am beth yr oeddynt yn chwilio amdano.

Byddwch yn cael cynnig un ai copi o'r cofnod, os cafodd ei nodi ar ffurflen bapur neu dderbynneb os cafodd y cofnod ei wneud yn electronig neu dros radio'r swyddog. Gallwch ddefnyddio'r dderbynneb i ofyn am gopi papur neu electronig o'r cofnod llawn o'r orsaf heddlu yr oedd y swyddog heddlu ynddi o fewn 3 mis o gael eich stopio neu er mwyn gwneud cwyn.

Os byddwch yn cael eich chwilio a'ch arestio, bydd manylion y chwiliad yn cael eu hychwanegu i'ch cofnod dalfa. Mae gennych chi dal hawl i gael copi o'r cofnod chwilio.

Gellir gofyn i chi dynnu eich côt, siaced a menig yn gyhoeddus (a'ch het/cap a'ch esgidiau os ydych yn cael eich chwilio o dan Adran 47A o Ddeddf Terfysgaeth 2000).

Os gofynnir i chi dynnu mwy nag un gôt allanol neu siaced neu unrhyw beth sy'n cael ei wisgo am resymau crefyddol, bydd y swyddog yn mynd â chi i rywle llai cyhoeddus. Fel arfer, byddwch yn cael eich chwilio gan swyddog o'r un rhyw â chi, er y gellir gofyn i chi dynnu eich cap/het gan swyddog o ryw gwahanol i chi yn unol ag Adran 47A o Ddeddf Terfysgaeth 2000.

Fe ddylech gael eich trin yn deg a gyda pharch bob amser. os ydych yn teimlo nad yw hyn wedi digwydd, mae modd i chi gwyno.

Gallwch hefyd gwyno os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich trin yn llai ffafriol oherwydd eich oedran, anabledd, rhywedd, hil, crefydd/cred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd o gymorth os byddwch yn cadw'r cofnod a gawsoch gan y swyddog.

## **COFIWCH:**

- mae'n rhaid i chi gael eich trin yn deg
- mae'n rhaid i chi gael eich hysbysu o'r rheswm pam yr ydych yn cael eich chwilio
- does dim rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth bersonol oni bai eich bod wedi cael eich arestio
- nid yw cael eich stopio a'ch chwilio yr un peth â chael eich arestio - ni fyddwch yn cael cofnod troseddol
- mae'n rhaid i chi gael cynnig, a gallwch dderbyn, copi o'r cofnod stopio a chwilio
- mae gennych chi hawl i gwyno.

Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eich hawliau wrth gael eich stopio a'ch chwilio, neu wybodaeth am sut i wneud cwyn, ewch i

**[www.northwales-pcc.gov.uk](http://www.northwales-pcc.gov.uk)**

**Mae dyletswydd ar bawb i helpu swyddogion heddlu atal trosedd a dal troseddwr; mae cydweithrediad y cyhoedd yn hanfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod stopio a chwilio yn cael ei ddefnyddio'n iawn. Mae stopio a chwilio yn declyn plismona gwerthfawr sy'n helpu i gadw ein cymunedau yn ddiogel.**

EICH COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD LLEOL YW:  
YOUR LOCAL POLICE & CRIME COMMISSIONER IS:

**Arfon Jones**

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**  
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU



OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**  
**COMMISSIONER** NORTH WALES

Glan y Don, Bae Colwyn/Colwyn Bay, LL29 8AW

Ffôn/Tel: **01492 805486**

Ebost/Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**

**[www.northwales-pcc.gov.uk](http://www.northwales-pcc.gov.uk)**